**Holiadur**

**Adolygiad Tair Blynedd yr Awdurdod Glo**

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i holl adrannau'r Llywodraeth adolygu eu holl Gyrff Cyhoeddus Anadrannol o leiaf bob tair blynedd. Fel y cyhoeddodd Michael Fallon ar 9 Hydref 2013, mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi penderfynu mai'r Awdurdod Glo fydd yn cael ei adolygu eleni, mewn cytundeb â Swyddfa'r Cabinet sy'n gorchwylio'r broses hon.

Cam cynta'r adolygiad yw ystyried, gyda chyfraniad gan randdeiliaid, yr angen parhaus am swyddogaethau Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a'r dulliau o'u cyflawni.

## Swyddogaethau'r Pwyllgor

Yr Awdurdod Glo sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r glo yng ngwledydd Prydain o bell ffordd, yn ogystal â hen byllau glo. Mae'n Gorff Cyhoeddus Anadrannol a noddir gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac fe'i sefydlwyd gan Senedd San Steffan trwy Ddeddf Diwydiant Glo 1994 er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol penodol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- trwyddedu gweithgarwch mwyngloddio glo ym Mhrydain;
- trin hawliadau am ddifrod yn sgil ymsuddiant nad yw gweithredwyr glofeydd trwyddedig yn gyfrifol amdanynt;
- rheoli materion atebolrwydd hanesyddol ac eiddo, fel peryglon ar yr wyneb a thrin dŵr sy'n gollwng o byllau glo; a
- galluogi'r cyhoedd i weld gwybodaeth am weithgarwch mwyngloddio glo'r gorffennol a'r presennol

Mae manylion llawn am waith yr Awdurdod ar gael yn - http://coal.decc.gov.uk

## Eich barn

Hoffem gael eich barn fel rhanddeiliaid allweddol yr Awdurdod, a bydd eich ymateb yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad. Felly, ceisiwch fod mor onest ac agored â phosibl a chyflwyno tystiolaeth neu enghreifftiau lle bo'n bosibl i ategu'ch ateb. Er nad oes cyfyngiad ar nifer geiriau, ceisiwch fod mor gryno ag y bo modd.

Er mwyn inni wybod pa waith gan yr Awdurdod rydych chi'n cyfeirio ato, byddwch yn benodol ac esboniwch unrhyw fyrfoddau neu acronymau.

Cyflwynwch eich atebion o dan yr adrannau canlynol. Ni fydd pob adran yn berthnasol i bob rhanddeiliad, ac os na allwch chi roi sylwadau ar ambell faes, ysgrifennwch "Ddim yn berthnasol" neu gadewch y blwch yn wag. Nid oes angen cyfyngu eich hun trwy ateb yr union gwestiwn a ofynnir – yn hytrach, defnyddiwch y cwestiwn fel cymhelliant i drafod yr holl elfennau perthnasol.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb dienw o atebion yr holiadur fel rhan o'r adroddiad terfynol. Efallai y byddwn yn cyfeirio at faes penodol o'r diwydiant y cyfeiriwyd ato,

ond nid at sefydliad nac unigolion penodol.

## Rôl yr Awdurdod

**Mae gan yr Awdurdod bedair prif rôl:**

- trwyddedu;
- hawliadau am ddifrod ymsuddiant;
- diogelwch cyhoeddus; a
- gwybodaeth am fwyngloddio.

**Nodwch ym mha feysydd y mae gennych chi gysylltiad â'r Awdurdod**

Rheoli'r broses o ddatblygu adnodd naturiol pwysig yng Nghymru
Rheoli dŵr sy'n gollwng o byllau glo a pheryglon amgylcheddol eraill
Defnyddio gwybodaeth am fwyngloddio ar gyfer ein gweithgareddau ni.

**Pa mor berthnasol a phwysig yw gwaith yr Awdurdod?**

Rheoli adnoddau naturiol: Mae rheolaeth yr Awdurdod Glo o gronfeydd glo Cymru yn elfen bwysig o'n gwaith cynllunio adnoddau naturiol. Gall rheoli tynnu glo, methan yr haen lo neu nwyeiddio glo danddaear gael cryn effaith ar amgylchedd Cymru. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a lleihau'r effeithiau negyddol posibl.

Mwyngloddiau segur yw'r pwysau mwyaf sylweddol ar ansawdd amgylchedd dŵr Cymru. Maent yn rhwystr sylweddol i sicrhau Statws Ecolegol Da, gan eu bod yn gollwng metelau gan gynnwys sylweddau peryglus fel cadmiwm. Mae gan yr Awdurdod enw da'n rhyngwladol am arbenigo mewn trin dŵr mwyngloddiau. Mae'r arbenigedd hwnnw wedi arwain at welliant mawr yn ansawdd amgylchedd Cymru gyda 11 gwaith trin dŵr mwyngloddiau yn diogelu dros 100km o'n hafonydd, yn lleihau peryglon llifogydd a chreu cynefinoedd newydd. Er mwyn cyrraedd ein targedau, rydym o'r farn bod rhaid i waith yr Awdurdod Glo yn y maes hwn barhau ac yn ddelfrydol, ehangu. Mae gwybodaeth am fwyngloddiau yn elfen o'n gwaith cynllunio coedwigoedd a'r cynlluniau gweithredol, sy'n ein galluogi i asesu diogelwch a pheryglon amgylcheddol yn briodol.

**Ydych chi'n credu y gallai'r Awdurdod wneud mwy yn y maes gwaith hwn? A allai wneud defnydd gwell o'i adnoddau/gwybodaeth?**

Mae mwyngloddiau segur, yn enwedig rhai metel, yn parhau i fod yn gryn bwysau sy'n effeithio ar ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru. Rydym eisoes yn defnyddio arbenigedd yr Awdurdod ar reoli dŵr mwyngloddiau a pheryglon eraill mewn pyllau glo er mwyn ein helpu i fynd i'r afael â llygredd mwyngloddiau metel. Wrth inni ddatblygu rhaglen driniaeth ar gyfer mwyngloddiau metel, credwn mai'r Awdurdod sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen i adfer a gwella ein hafonydd a'n dŵr daear. Bydd y cymorth parhaus gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, a'r adnoddau ychwanegol ganddi, yn galluogi'r Awdurdod i ehangu ymhellach yn y maes hwn. Mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am byllau glo, ond llai am ardaloedd mwyngloddiau metel Cymru, ac mae hyn yn risg i'n gweithgareddau ni. Byddai ehangu cylch gwaith yr Awdurdod i gynnwys yr holl wybodaeth am fwyngloddio yn sicrhau cysondeb ac adnodd unigol.

**Ydych chi'n teimlo bod gan yr Awdurdod syniad clir o'i gyfeiriad yn y maes hwn ar gyfer y 5 i 10 mlynedd nesaf?**

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod er mwyn llywio ei raglen amgylcheddol sydd eisoes yn cyd-fynd â'r gwaith cynllunio basnau afonydd sy'n ofynnol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr tan 2027.

**Beth allai'r Awdurdod ei wneud yn wahanol yn y maes hwn?**

Mae gwaith yr Awdurdod yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae tynnu a llosgi glo yn cael effaith amgylcheddol ond hefyd yn cyfrannu at hyfywedd economaidd. Gellir defnyddio tir ar hen safleoedd glo, rhai dan ofal yr Awdurdod, i gyfrannu at nod Cymru o ehangu'r ystâd coetiroedd 100,000 hectar. Gallai hyn gynnig manteision niferus fel: gwella'r gallu i storio carbon, darparu ffynhonnell o bren a chynefinoedd newydd gwerthfawr, lleihau effeithiau newid hinsawdd ac adfywio ardaloedd sy'n gymdeithasol ac economaidd ddifreintiedig.

Mae cyfle sylweddol o hyd i drin dŵr mwyngloddiau, glo a metel, mewn ffyrdd arloesol, mewn lleoliadau sy'n anodd eu trin gan ddefnyddio'r dulliau arferol oherwydd sensitifrwydd amgylcheddol, mynediad neu drefoli. Mae'r Awdurdod yn cynnal rhaglen ymchwil sylweddol yn y maes hwn, a gellid ei hehangu gyda chyfleoedd i ymchwilio i safleoedd sydd ar gael yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda phrifysgolion Cymru i ddatblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu dulliau i reoli llygredd pyllau segur.

**Yn gyffredinol, beth yw effaith yr Awdurdod ac ydych chi'n credu ei fod wedi cael yr effaith fwriedig?**

Mae manteision economaidd rhaglen trin dŵr mwyngloddiau'r Awdurdod yn sylweddol a chynaliadwy, gan wella nid yn unig ansawdd ecolegol ein hafonydd ond hefyd trwy gyfrannu at ein bywiogrwydd economaidd ac iechyd a lles cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig.

**Dulliau amgen o ddarparu swyddogaethau'r Pwyllgor**

**Fel rhan o bob Adolygiad Tair Blynedd, rhaid ystyried dulliau amgen o ddarparu swyddogaethau. Beth yw manteision a pheryglon darparu swyddogaethau'r Awdurdod yn y ffyrdd amgen hyn yn eich barn chi? Yn enwedig, ydych chi'n credu bod unrhyw un o'r dulliau canlynol yn fanteisiol, a pham?**

| Dulliau darparu | Sylwadau |
|---|---|
| **Diddymu** | Mae swyddogaethau'r Awdurdod yn hollbwysig ar gyfer rheoli adnoddau a diogelu'r amgylchedd yng Nghymru felly ni allem gefnogi'r opsiwn hwn. |
| **Symud o Lywodraeth Ganolog (e.e. i'r sector gwirfoddol neu breifat)** | Nid ydym yn ystyried bod naill ai'r sector gwirfoddol na'r sector preifat yn addas ar gyfer rôl reoleiddio statudol yr Awdurdod. Mae angen elfen o barhad a chynllunio tymor hir ar gyfer y rhaglen rheoli a thrin dŵr mwyngloddiau, sy'n addas i'r sector cyhoeddus. |
| **Dod yn rhan o gorff mewnol (e.e. i ran gyfredol o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd)** | Mae cadw statws yr Awdurdod fel Corff Cyhoeddus Anadrannol yn fanteisiol o ran bod yn hygyrch i lywodraethau datganoledig a'u sefydliadau sector cyhoeddus. |
| **Uno â chorff arall** | Nid yw swyddogaethau'r Awdurdod wedi'u datganoli i Gymru. Gall anghenion rheoli adnodd naturiol yn gynaliadwy olygu y gallai uno â Chyfoeth Naturiol Cymru fod yn bosibilrwydd, ond byddai'n well gennym barhau i weithio gyda'r Awdurdod er lles amgylchedd Cymru.<br>Nid ydym yn credu y byddai rhannu'r Awdurdod i uno gyda sefydliadau datganoledig yn fanteisiol, gan y byddai'r gronfa o arbenigwyr yn debygol o gael ei gwanhau a'i harallgyfeirio, ac yn rhy fach fwy na thebyg i fod yn ymarferol. Gallai cyfuno rhai o swyddogaethau'r Awdurdod sy'n gorgyffwrdd ag awdurdodau lleol neu gyrff eraill, yn enwedig ar gyfer trwyddedu mwynau a gwybodaeth am fwyngloddio, fod yn fanteisiol, gan sicrhau dull cyson yn genedlaethol. Mae hyn yn golygu ehangu rôl yr Awdurdod yn hytrach nag uno. |
| **Darparu gan Asiantaeth Weithredol newydd** | Nid ydym yn credu y byddai'r opsiwn hwn o fantais. |

| | |
|---|---|
| **Parhau â darpariaeth gan Gorff Cyhoeddus Anadrannol NDPB** | Dyma'r opsiwn rydym yn ei ffafrio, a byddem yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod er lles amgylchedd Cymru. |

## Unrhyw sylwadau eraill

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch yr Awdurdod yng nghyd-destun yr Adolygiad Tair Blynedd hwn?**

| |
|---|
| Er ein bod ni'n sefydliad newydd yng Nghymru, mae ein cyrff etifeddiaeth wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'r Awdurdod ers ei sefydlu ym 1994 er mwyn adfer a gwella'r amgylchedd yng Nghymru. Byddwn yn parhau â'r berthynas honno ac yn ei gwella er mwyn gwireddu'r manteision a ddaw yn sgil dull integredig o reoli adnoddau naturiol. |

## Amdanoch chi a'ch sefydliad

**Mae croeso i chi lenwi a dychwelyd y ffurflen hon yn ddienw os ydych chi'n dymuno. Os nad ydych chi am gynnwys eich manylion isod, bydd y ddogfen hon yn cael ei chadw'n anhysbys a heb fod yn gysylltiedig â chi mewn unrhyw ffordd. Er hynny, byddem yn ddiolchgar pe baech yn dweud ar ran pa sefydliad rydych chi'n ymateb neu o leiaf sut mae'ch gwaith yn gysylltiedig â'r Awdurdod.**

| **Eich Manylion Cyswllt** | |
|---|---|
| **Enw** | Dave Johnston |
| **Sefydliad** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Eich rôl yn y sefydliad** | Uwch Gynghorydd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| **Sut mae'ch gwaith yn gysylltiedig â'r Awdurdod** | |
| **Cyfeiriad** | Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP |
| **Rhif ffôn** | 029 2046 6166 |
| **E-bost** | Dave.johnston@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| **Ers pryd mae gennych gysylltiad â'r Awdurdod** | Ers 1994 |